# ytafod

cylchgrawn cymdeithas yr iaith




**gaeaf 2022**

# Y Senedd 2022-23

Y Senedd yw'r pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio holl waith Cymdeithas yr Iaith. Yn ystod y flwyddyn, cynhelir Senedd Ymgyrchoedd bedair gwaith, Senedd Ranbarthau deirgawith a Senedd Weinyddol deirgwaith. Mae croeso i aelodau'r Gymdeithas ddod i'r cyfarfodydd.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas eleni yng Nghanolfan Merched y Wawr, Aberystwyth. Etholwyd y canlynol i Senedd y Gymdeithas:

**Cadeirydd**
Robat Idris
*robat@cymdeithas.cymru*

**Is-gadeirydd Ymgyrchoedd**
Ifan Jones
*ifan@cymdeithas.cymru*

**Is-gadeirydd Gweinyddol**
Mai Roberts
*mai@cymdeithas.cymru*

**Trysorydd**
Danny Grehan
*danny@cymdeithas.cymru*

**Swyddog Codi Arian a Swyddog Aelodaeth**
Bethan Ruth
*bethanruth@cymdeithas.cymru*

**Swyddog Mentrau Masnachol**
Mirain Owen
*mirain@cymdeithas.cymru*

**Swyddog y We**
Llinos Anwyl
*llinos@cymdeithas.cymru*

**Swyddog Dylunio**
Carwyn Hedd
*carwyn@cymdeithas.cymru*

**Golygydd y Tafod**
Mared Llywelyn
*tafod@cymdeithas.cymru*

**Swyddog Dysgwyr**
Heledd Owen
*heledd.owen@cymdeithas.cymru*

**Swyddog Rhyngwladol**
Joseff Gnagbo
*joseff@cymdeithas.cymru*

**Cadeirydd y Grŵp Addysg**
Mabli Siriol
*mabli@cymdeithas.cymru*

**Is-gadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol**
Mirain Owen
*mirain@cymdeithas.cymru*

**Cadeirydd y Grŵp Cymunedau Cynaliadwy**
Jeff Smith
*jeff@cymdeithas.cymru*

**Cadeirydd y Grŵp Dyfodol Digidol**
Carl Morris
*carl@cymdeithas.cymru*

**Cadeirydd y Grŵp Hawl i'r Gymraeg**
Aled Powell
*aled@cymdeithas.cymru*

**Cadeirydd y Grŵp Iechyd a Lles**
Gwerfyl Roberts
*gwerfyl@cymdeithas.cymru*

## Staff cyflogedig

sydd hefyd yn aelodau llawn o'r Senedd.

**Carol Jenkins**
Ysgrifennydd Cyffredinol
*post@cymdeithas.cymru*

**Bethan Williams**
Swyddog Ymgyrchoedd
*ymgyrch@cymdeithas.cymru*

**Swydd wag**
Swyddog Cyfathrebu
a Chyswllt Gwleidyddol

## Y Cyfarfod Cyffredinol

Mae'r holl gynigion a basiwyd i'w gweld ar wefan y Gymdeithas:

***cymdeithas.cymru/cyfarfod-cyffredinol***

Mae swydd yr **Is-gadeirydd Cyfathrebu** a swyddi is-gadeiryddion rhai o'r grwpiau ymgyrchu yn dal yn wag.

Os oes gennych ddiddordeb yn un o'r swyddi hyn, cysylltwch â ni (*post@cymdeithas.cymru*). Mae hawl gan Senedd y Gymdeithas i gyfethol aelodau i swyddi gwag.

## Awydd cyfrannu at waith y Gymdeithas?

Mae angen aelodau ar bob grŵp ymgyrchu (addysg, cymunedau cynaliadwy, dyfodol digidol, hawl i'r Gymraeg, iechyd a lles).

Neu efallai bod gennych ddiddordeb mewn gwaith dysgwyr, codi arian neu drefnu gigs. Beth felly am ymuno ag un o'r grwpiau yma?

- Y Grŵp Codi Arian
- Pwyllgor y Dysgwyr
- Pwyllgor Gigs

Os oes diddordeb gyda chi yng ngwaith y Gymdeithas neu os gallwch chi helpu gyda chynllunio a threfnu digwyddiadau ac ymgyrchoedd, cysylltwch â ni: post@cymdeithas.cymru neu bethan@cymdeithas.cymru




## Gair o’r gadair

Bobol bach! Dyma amser i mi gael fy hun yn y Gadair! Cymaint o heriau yn wynebu’r Gymraeg, heb sôn am ddaeargrynfeydd cymdeithasol a gwleidyddol; ac yn gefndir i’r cyfan, y bygythiadau deublyg o newid hinsawdd a rhyfel niwclear. Ond wynebu heriau yn eofn a gweithredu fu hanes y Gymdeithas erioed, ac felly y pery.

Felly sut ydw i’n gweld y flwyddyn nesaf yn datblygu?

Mae’r ymgyrch “Nid yw Cymru ar Werth” wedi ysbrydoli llaweroedd y tu hwnt i aelodaeth y Gymdeithas. Mae’r ralïau a’r ymgyrchu yn parhau. Roedd hi’n braf gweld nifer ohonoch chi yn Llanrwst ddydd Sadwrn $17^{eg}$ o Ragfyr.

Mae’r Gymdeithas yn cydweithredu efo nifer o fudiadau eraill yn y maes cartrefi a bydd hynny’n datblygu. Efallai mai un o’r pethau pwysicaf i ni yw fod ein ffordd ni o ymgyrchu yn cadw’r mater yn fyw fel nad ydyw yn cael ei anghofio. Mae dyfodol ein cymunedau, ein pobl ifanc, a’r Gymraeg yn y fantol.

Bydd y gwaith ym meysydd hawliau, iechyd a lles, dyfodol digidol, addysg, dysgwyr a rhyngwladol yn parhau. Gwneir tomen o waith yn y cefndir gan y grwpiau sy’n ymwneud â’r materion hyn, gwaith sy’n greiddiol i barhad a datblygiad y Gymraeg yn y byd cyfoes. Mae gwir angen i ragor o aelodau roi help llaw i’r grwpiau yma – os oes gen ti ddiddordeb mewn maes penodol – rho wybod i’r swyddfa! Byddwn yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, o ran amser a syniadau.

Wrth gwrs, rhaid i ni ddal i ledaenu ein negeseuon drwy sawl dull. Felly mae’n hynod bwysig bod y Gymdeithas yn cyfethol Is-gadeirydd Cyfathrebu cyn gynted â phosib. Pam na wnei di godi’r ffôn a siarad efo’r swyddfa i drafod y gwaith yma?

Yn ystod y flwyddyn, bydd angen i ni feddwl ymhellach am sut y byddwn yn hyrwyddo’r amcanion sydd yn ein Maniffesto a lansiwyd yn yr Eisteddfod. Mae “CYMRU RYDD, CYMRU WERDD, CYMRU GYMRAEG” yn ddogfen hollol addas i’n hamseroedd ni. Mae’n dangos fel y mae’r Gymraeg a’r frwydr drosti yn sefyll mewn cydberthynas â chymaint o frwydrau eraill ledled y byd yn erbyn anoddefgarwch, annhegwch, militariaeth, rhaib amgylcheddol a gormes cyfalafiaeth. Dydyn ni ddim ar ein pennau ein hunain, dydyn ni ddim yn amherthnasol, dydyn ni ddim yn fewnblyg!

Daeth yn hollol amlwg fod agenda gwladwriaeth y Deyrnas Gyfunol (pwy yn ei iawn bwyll sy’n defnyddio’r ymadrodd “Y Deyrnas Unedig” bellach?!) yn symud i’r dde eithafol. Gallwn ddisgwyl gwasgu pellach ar ein hawliau – gan gynnwys protestio – ond fedrwn ni ddim gadael i fygythiadau fel hyn ein dychryn i daeogrwydd.

Gwelsom beiriant propaganda’r wladwriaeth yn arddangos ei holl rym tra’n ceisio gorfodi galaru torfol arnom wedi marwolaeth dynes eithriadol o gyfoethog a oedd mewn gwth o oedran. Gwthiwyd un o dylwyth y Saxe-Coburg-Gotha (Windsor ers 1917) arnom fel tywysog ffiwdal heb i neb yng Nghymru ei wahodd. Amser a ddengys pa fath o seremoni arwisgo y cawn yr hwyl o’i gwrthwynebu, ond un peth sy’n sicr – nid oes i frenhiniaeth le yn y Gymru gyfoes. ’Nôl yn 1969, roedd y Gymdeithas ar flaen y gad yn gwrthwynebu arwisgo Carlo. Nid yw Cymru Rydd yn bosib tra pery’r teitl “Tywysog Cymru”.

Afraid dweud fod cyfrifoldeb ar bob un ohonom yn ein bywydau beunyddiol i fyw’n wyrdd. Ond mae yna fodd i ni fel Cymdeithas ofyn – sut fath o chwyldro gwyrdd ydyn ni eisiau? Ai sefyll ar un ochr tra fydd ffermydd Cymru yn cael eu prynu i ddiwallu gwanc sefydliadau ariannol am elw drwy blannu coed, fel y gall cwmnïau ddal i lygru yn rhywle arall? Bydd coed lle y mae cymunedau Cymreig. A beth am gynhyrchu ynni adnewyddol? Ydyn ni wir am i gorfforaethau rhyngwladol elwa ar ein hadnoddau naturiol, tra bod pobl Cymru mewn tlodi tanwydd? Ein cymunedau tlotaf – sy’n aml yn rhai Cymraeg – sy’n dioddef fwyaf. Ynni cymunedol os am Gymru Werdd! Ac mae angen edrych ar y syniad o drafnidiaeth gyhoeddus am ddim neu’n rhad iawn, er mwyn lleihau’r defnydd o gerbydau, ac er mwyn cysylltu ardaloedd Cymru yn rhwyddach.

Heb yr ymgyrchu ar sawl lefel, ac mewn sawl maes, bydd pwrpas canolog y Gymdeithas, sef sicrhau dyfodol llewyrchus i’r Gymraeg, yn mynd yn anos i’w wireddu. Dyna pam mae angen osgoi’r demtasiwn i roi’r iaith mewn seilo, a’i hystyried ar wahân i faterion eraill. Rhaid i’r Gymraeg fod yn ganolog ym mhob maes polisi – dyna’r unig ffordd i gael Cymru Gymraeg.

Ar ben y cyfan, gofynnwch i chi eich hun – beth fedra i wneud dros yr iaith yn y lle dwi’n byw? Mewn sgwrs yn y siop, mewn cyfarfod yn y neuadd leol, drwy sgwrsio efo dysgwyr. Mae cymaint o ffyrdd heblaw am ymgyrchu uniongyrchol. Yn y pen draw, gweld y Gymraeg yn iaith gymunedol hyfyw drwy Gymru benbaladr yw’r nod.

Cymru Rydd, Cymru Werdd, Cymru Gymraeg amdani!




# Fforwm Agored Tynged yr Iaith Sir Gâr '22 - Addysg yw'r Allwedd



Rydym yn ffodus yn Sir Gaerfyrddin bod cynghorwyr a swyddogion y Cyngor yn barod i ddod i gyfarfodydd agored blynyddol i drafod pwnc penodol gyda ni.

Eleni, addysg oedd y thema ac roedd hi'n galonogol clywed Darren Price, arweinydd y Cyngor, a Calum Higgins, cyn-gynghorydd sir Llafur a oedd yn rhan bwysig o'r Gweithgor a sefydlwyd i atal dirywiad ac adfer y Gymraeg yn y sir yn dilyn Cyfrifiad 2011, yn dweud bod angen cydweithio rhwng y pleidiau ac ar draws y Cyngor er lles addysg plant y sir. Bydd hyn yn allweddol i sicrhau addysg i blant yn eu cymunedau yn ogystal ag addysg Gymraeg i bawb.



Roedden ni'n falch hefyd i nifer o rieni sy'n ansicr am ddyfodol eu hysgol gael cyfle i rannu eu pryderon a syniadau ar gyfer cynnal yr ysgol gyda Darren Price – ac rydyn ni'n ffyddiog y bydd y Cyngor yn gwrando.



## Seminar Deddf Eiddo









Er i ni ymgyrchu dros Ddeddf Eiddo ers yr wythdegau, mae problemau tai yn waeth nag erioed a'n cymunedau wedi newid oherwydd hynny. Mae tai yn dal i gael eu trin fel asedau yn hytrach na chartref.

Rydym wedi cynnal sawl rali dorfol a gweithredu'n lleol dros y deunaw mis diwethaf, ac mae'r Llywodraeth wedi gwrando i raddau drwy gyflwyno mesurau a grymoedd newydd i gynghorau fynd i'r afael â phroblemau ail dai a llety gwyliau.

Ond dydy problemau tai ddim wedi'u cyfyngu i ardaloedd â nifer uchel o ail dai a thai gwyliau yn unig – mae problemau ar draws Cymru. Felly fe wnaethon ni ddiweddaru ein cynigion ni ar gyfer Deddf Eiddo a'u cyhoeddi mewn Seminar yng Nghaerdydd gydag Elin Hywel ar ran y Gymdeithas, Walis George, a Mabon ap Gwynfor AoS.

Rydyn ni'n galw am ddeddf eiddo fyddai:

1. Yn sicrhau'r hawl i gartre'n lleol
2. Yn cynllunio ar gyfer anghenion lleol
3. Yn grymuso cymunedau
4. Yn blaenoriaethu pobl leol
5. Yn rheoli'r sector rhentu
6. Yn sicrhau cartrefi cynaliadwy
7. Yn buddsoddi mewn cymunedau

Mae mwy am yr ymgyrch a'n cynigion ni ar y wefan: cymdeithas.cymru/dogfen/cynigioneiddo22

Wyt ti eisiau bod yn rhan o'r ymgyrch dros Ddeddf Eiddo trwy gynllunio a threfnu'r ymgyrch a digwyddiadau?

Cysyllta â jeff@cymdeithas.cymru neu bethan@cymdeithas.cymru

## Symposiwm Addysg Gymraeg i Bawb

Wrth i Lywodraeth Cymru baratoi Deddf Addysg Gymraeg, fe gynhalion ni Symposiwm i drafod ein Deddf Addysg Gymraeg ddrafft ni sy'n gosod y nod bod pob plentyn yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2050.

Yno i gyflwyno a thrafod y ddeddf roedd Keith Bush, Cymrawd Cyfraith Cymru, a luniodd ein Deddf Addysg ni; Paul Bilbao Sarria, ymgyrchydd gydag Euskalgintzaren Kontseilua yng Ngwlad y Basg, yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Catrin Dafydd ac Alun Davies AoS.




Fe wnaeth Paul Bilbao Sarria sôn sut iddyn nhw sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn medru'r Fasgeg yn rhugl yng Ngwlad y Basg – a sut y gall yr un peth fod yn wir am y Gymraeg yng Nghymru.

Gallwch chi ddarllen ein Deddf Addysg Gymraeg i Bawb ar y wefan: cymdeithas.cymru/DeddfAddysgG

Mae'r Llywodraeth yn paratoi papur gwyn ar gyfer Deddf Addysg ar hyn o bryd felly byddwn ni'n parhau i bwyso arnyn nhw i gyflwyno deddf fydd yn sicrhau addysg Gymraeg i bawb fel bod pob un person ifanc yn y wlad yn gadael yr ysgol yn gallu siarad yr iaith yn hyderus.

Os oes diddordeb neu brofiad gyda ti ym maes addysg, cysyllta â mabli@cymdeithas.cymru neu bethan@cymdeithas.cymru i fod yn rhan o'r ymgyrch.





# Cais am siaradwyr Cymraeg!

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg yn chwilio am siaradwyr Cymraeg all sbario 10 awr dros gyfnod o tua chwe mis i sgwrsio gyda dysgwyr a'u cyflwyno i'r gymuned Gymraeg.

Mi allwch gwrdd
- mewn caffi dros baned
- wrth wylio'r pêl-droed,
- yn y côr,
- wrth fynd am dro
- dros y we neu ble bynnag sy'n apelio atoch chi!

Mi fydd y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun wedi cyrraedd lefel lle gallan nhw gynnal sgwrs anffurfiol yn gyfforddus.

I gofrestru, ewch i dysgucymraeg.cymru/siarad neu e-bostiwch swyddfa@dysgucymraeg.cymru

Helpwch nhw i gyrraedd y miliwn!





## Dysgwyr a'r Gymdeithas

Heledd Owen yw Swyddog Dysgwyr newydd y Gymdeithas a hi sy'n gyfrifol am drefnu gweithgarwch y Gymdeithas dros y flwyddyn gyda chymorth Pwyllgor y Dysgwyr.

Os hoffech gyfrannu at y gwaith hwn, mae croeso mawr i chi ymuno â'r pwyllgor. E-bostiwch post@cymdeithas.cymru am ragor o wybodaeth.

A chofiwch ein bod yn parhau â'n boreau coffi ar-lein ar gyfer dysgwyr ar fore Mawrth cynta'r mis a'r trydydd bore Mawrth.

Cysylltwch os hoffech ymuno â'r sgwrs!



# Cynhadledd ELEN

*'Rydym yn rhan o rwydwaith o ieithoedd rhyngwladol sy'n ein cyfoethogi ni'*

**Bethan Ruth**

Bu cyfarfod Rhwydwaith Cydraddoldeb Ieithoedd Ewrop (ELEN) fis Hydref yng Nghaerdydd. Mae ELEN yn gorff rhyngwladol i grwpiau sy'n gweithio tuag at gydraddoldeb ieithyddol ac amlieithrwydd, dan fframwaith ehangach o hawliau dynol.

Pwrpas ELEN yw cynrychioli'r 50 miliwn o bobl, 10% o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd, sy'n siarad iaith ranbarthol, leiafrifol neu mewn perygl. Mae ELEN yn cynnwys 174 o aelod-sefydliadau sy'n cynrychioli 50 o ieithoedd mewn 25 o wladwriaethau Ewropeaidd.

Cymerodd y Gymdeithas ran mewn sgyrsiau yn ystod y dydd, gan gynnwys sgwrs banel am gymunedau cynaliadwy a gweithdy ar groestoriadedd ac ymgyrchu. Roedd gan y Gymdeithas hefyd stondin yno lle bu aelodau yn trafod ymgyrchoedd y Gymdeithas a'r maniffesto newydd.

"Daw'r rhwystr i'r Gatalaneg yn bennaf o'r cenedlaetholdeb Sbaenaidd, oherwydd dim ond un iaith maen nhw ei heisiau yn Sbaen" meddai Elena Jimenez (Omnium Cultural), o Gatalonia.




Sefydliad anllywodraethol yw ELEN a sefydlwyd yn 2011 yn seiliedig ar bwyllgorau aelod-wladwriaeth y Swyddfa Ewropeaidd ar y pryd. Fe wnaeth ymgyrchwyr, sefydliadau ac academyddion ymgasglu o wledydd a rhanbarthau ledled Ewrop, gan gynnwys Cymru, yr Alban, Catalonia a gogledd Iwerddon, i drafod eu gobeithion a'u pryderon ynghylch dyfodol eu hieithoedd.

"Rhwystr arall i'r Gatalaneg hefyd yw'r ffaith fod yr iaith mor wan. Mae Sbaeneg a hefyd Saesneg yn ieithoedd sy'n oruwch ac yn bresennol iawn trwy, er enghraifft, rwydweithiau cymdeithasol ac mewn prosiectau clyweledol, ac yn y blaen."

Dywedodd Pádraig Ó Tiarnaigh (Conradh na Gaeilge), o ogledd Iwerddon: "Mae'r



Wyddeleg yn rhan bwysig iawn o'm bywyd. Yn hanesyddol, mae'r Wyddeleg wedi cael ei gwahardd, ei gwthio i'r cyrion, o ogledd Iwerddon, ac ar draws yr Ynys. Rydyn ni'n falch iawn o ddweud ein bod ni wedi cyrraedd carreg filltir hanesyddol drwy gael bil yr iaith wedi'i basio yn Nhŷ'r Cyffredin ychydig wythnosau yn ôl."

Roedd cael bod yn rhan o'r gynhadledd yn rhoi gobaith a theimlad o gyfeillgarwch rhyngwladol a sylweddoli nad ydyn ni'n ddieithriaid yn byw ar ynys yng nghanol n'unlle – rydyn ni'n rhan o rwydwaith o ieithoedd rhyngwladol, ac mae'n ein cyfoethogi ni.

Bydd cynhadledd flynyddol nesaf ELEN yn cael ei chynnal yn Cagliari, Sardinia ym mis Medi 2023.


## Cerddi'r 60

Wyddoch chi ein bod wedi cynhyrchu pecyn o gardiau post arbennig i nodi 60 mlwyddiant y Gymdeithas?

Mae pob un o'r chwe cherdyn post wedi'i ddylunio'n drawiadol ac yn cynnwys cerddi gan Catrin Dafydd, Menna Elfyn, Aneirin Karadog, Mei Mac a Gruffydd Owen.

Dyma un gerdd arbennig gan Mererid Hopwood:

Pwy a'i piau? D'eiriau di – ydyw hon,
dy hawl yw ei chwmni,
dy hanes a'th dadeni:
ein Cymraeg, nawr cymer hi!




Anrheg ardderchog ar gyfer yr hosan Nadolig!

Pris: £6 y pecyn – neu £10 am ddau becyn

Neu beth am brynu ein pecyn 'Dolig arbennig am £10? Mae'n cynnwys pecyn o gardiau, bathodyn y 60 ac addurn 'Dolig pren i'r goeden.

## Rhaid i Bopeth Newid: cyfrol i ddathlu 60 mlwyddiant y Gymdeithas


Cofiwch am y gyfrol arbennig hon wedi'i golygu gan Dafydd Morgan Lewis sy'n cynnwys cyfraniadau gan Gareth Miles, Lleucu Roberts, Dafydd Iwan ac eraill. Yn ogystal, ceir lluniau trawiadol gan Marian Delyth o'r 60 mlynedd a fu.



Mae'r gyfrol yn edrych yn ôl ar ymgyrchoedd y gorffennol ac yn cloriannu amcanion y Gymdeithas i'r dyfodol drwy lygaid rhai o'n haelodau gweithgar.

Lansiwyd y gyfrol yn Amgueddfa Ceredigion ddechrau mis Hydref, a chafwyd sgwrs ddifyr rhwng Dafydd Morgan Lewis a Gwenan Creunant, a pherfformiad gan Bwca.

Ar gael o'ch siop lyfrau leol.




Rhagor o syniadau am anrhegion Nadolig dros y dudalen!

# Chwilio am rywbeth i'w roi yn eich ho-ho-hosan Nadolig?

Sêl 'Dolig (a Sêl mis Ionawr!)

Rhwng **28 Tachwedd ac 13 Ionawr**, byddwn yn cynnig gostyngiad anhygoel o **20%** ar bob un* o nwyddau'r Gymdeithas yn ein siop ar-lein.

Mae yna ddewis da o grysau-t a nwyddau eraill fyddai'n gwneud anrhegion 'Dolig gwych.


Peidiwch â cholli'r cyfle felly!

## Dillad i blant ac oedolion




## Bathodynnau, baneri, a sticeri





Pecyn Nadolig







*heblaw am y pecyn 'Dolig arbennig

Celfwaith y clawr cefn: Osian Grifford
'Cymunedau nid Cyfalafiaeth'


AR WERTH
FOR SALE